

Maes Gweithredu Allweddol 3

3. Cefnogi plant sy'n derbyn gofal i gael y teithiau gorau posibl trwy ofal ac i fod yn oedolion

Mae'r maes gweithredu hwn yn canolbwyntio ar roi teithiau wedi'u cynllunio'n glir i blant a phobl ifanc trwy ofal ac i fod yn oedolion sy'n cyd-fynd â'r canlyniadau a bennir yn eu cynlluniau gofal a chymorth ac yn eu galluogi i gael eu haduno gyda'r teulu lle bynnag y bo modd.

Mae'r ffrydau gwaith o dan y maes gweithredu hwn wedi'u nodi isod gyda chrynodeb o weithgaredd allweddol.

Ffrwd gwaith 1 - Gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal.

- Ym mis Ionawr 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu strategaeth gwasanaethau cymdeithasol ac addysg tair blynedd ar y cyd 'Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru'.
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/strategaeth-codi-uchelgais-a-chyrhaeddiad-addysgol-plant-sy%E2%80%99n-derbyn-gofal-yng-nghymru.pdf>
- Datblygwyd y strategaeth addysg ar y cyd mewn ymateb i gyrhaeddiad addysgol cydnabyddedig plant sy'n derbyn gofal. Cafodd ei lywio'n benodol gan:
 - o Ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gan Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant Prifysgol Caerdydd (CASCADE) –
<http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/research/research-projects/looked-after-children-and-education/>
 - o Ymgysylltu â gofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal, a wneir gan y Rhwydwaith Maethu a Voices From Care.
<https://www.thefosteringnetwork.org.uk/sites/www.fostering.net/files/uploads/pdf/educationreport.pdf>
- Roedd y strategaeth yn nodi gweithredoedd sydd wedi'u hanelu at wasanaethau cymdeithasol ac addysg gan weithio gyda'i gilydd i wella perfformiad addysgol plant sy'n derbyn gofal.
- Daeth y strategaeth i ben ym mis Ionawr 2019. Roedd canlyniadau'r strategaeth yn cynnwys cyhoeddi 'Gwneud gwahaniaeth – canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion' a phegyn hyfforddi cysylltiedig.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/gwneud-gwahaniaeth-canllaw-i-r-person-dynodedig-ar-gyfer-plant-sy-n-derbyn-gofal-mewn-ysgolion.pdf>

- Mae gweithgor o randdeiliaid allweddol o'r gwasanaethau addysg a chymdeithasol wedi'i sefydlu i nodi blaenoriaethau addysg plant sy'n derbyn gofal yn y dyfodol. Bydd hyn yn edrych ar ddatblygu dull sustem gyfan o wella cyrhaeddiad gan adeiladu ar y model pennau ysgolion rhithwir a chyflwyno hyfforddiant ar sail trawma.

Ffrwd gwaith 2 - Sicrhau bod cyfrifoldebau rhianta corfforaethol yn cael eu cydnabod ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

- Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddiogelu a hyrwyddo llesiant pob plentyn y mae'n gofalu amdano a hyrwyddo llesiant y rhai sy'n gadael gofal.
- Cefnogi aelodau etholedig yn eu rôl fel rhiant corfforaethol, drwy ganllaw i gynghorwyr "Pe bai hwn yn blentyn i mi....canllaw ymgynghorydd ar fod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a phobl sy'n gadael gofal" a gyhoeddwyd yn 2009, ac yn disgrifio cyfrifoldebau awdurdodau lleol tuag at blant â phrofiad gofal.

<https://gweddill.gov.wales/docs/caecd/publications/090804ifthisweremychildcy.pdf>

- Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno y dylai'r gwaith ddechrau ar:
 - o Ymestyn dyletswyddau rhianta corfforaethol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru trwy gryfhau Codau Ymarfer o dan Rannau 6 a 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
 - o Datblygu 'Siarter Rhiant Corfforaethol' gyda ac ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru er mwyn iddynt eu mabwysiadu dros y 12 mis nesaf;
 - o Cynnal ymgynghoriad a fydd yn gofyn a oes term arall sy'n haws ei ddeall na 'rhiant corfforaethol';
 - o Ystyried ymarferoldeb datblygu canllawiau statudol i wasanaethau cyhoeddus datganoledig a heb eu datganoli eraill, er mwyn caniatáu ymestyn cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ar draws gwasanaethau cyhoeddus ehangach, gan ddefnyddio pwerau sydd eisoes ar gael o dan y ddeddfwriaeth bresennol fel Deddf Plant 2004 a Deddf Addysg 2002.

- Mae Grŵp Tasg a Gorffen Rhianta Corfforaethol wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Ffrwd Gwaith 3 - Sicrhau bod ystod eang o gefnogaeth therapiwtig ar gael ar gyfer problemau emosiynol ac ymddygiadol y mae plant a phobl ifanc yn eu profi ar ymyl gofal ac ar gyfer plant mabwysiedig

- Amlygodd adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Gofal plant a phobl ifanc' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018 fod angen cymorth iechyd emosiynol a meddyliol priodol ar blant â phrofiad gofal. <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11857/cr-ld11857-w.pdf>
- Lanswyd y Rhaglen Gyda'n Gilydd i Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) yn 2015 i wella'r gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol i blant a phobl ifanc yng Nghymru <https://www.goodpractice.wales/t4cyp>
- Mae gan T4CYP ffrwd waith i ddatblygu model a fframwaith ar gyfer Cymorth Cynnar a Chefnogaeth Uwch. Nod y ffrwd gwaith yw cyflwyno cynigion ar gyfer arfer da a datblygu gwasanaeth i ddarparu cefnogaeth ac ymyriadau wedi'u targedu i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddatblygu problemau iechyd emosiynol a meddyliol neu ddangos arwyddion cynnar o anhwylderau meddwl.
- Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn mae NSPCC a Voices from Care Cymru wedi cynnal arolwg ac adroddiad, Gwrando, Gweithredu, Ffynnu, ynghylch effeithiolrwydd asesu a chefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a ddarperir i blant â phrofiad gofal - <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/policy/listenactthrive.pdf>

Ffrwd Gwaith 4 - Archwilio'r ystod o opsiynau llety sydd ar gael i bobl sy'n gadael gofal.

- Mae Côt Ymarfer Rhan 6 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol sy'n cynllunio ar gyfer ymadawyr gofal i drosglwyddo i annibyniaeth gynnwys dadansoddiad ar sail tystiolaeth o angen parhaus y person ifanc am lety a gofal a chefnogaeth.
- Yn 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y 'Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol i Oedolyn yn Cefnogi pobl ifanc ar eu taith i annibyniaeth economaidd a llwyddiant trwy gyngor tai, opsiynau ac atal digartrefedd'.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/llwybr-cadarnhaol-i-fyd-oedolion-canllawiau-ar-gyfer-awdurdodau-lleol-a-gweithwyr-proffesiynol.pdf>

- Ochr yn ochr â'r ddogfen 'Positive Pathway' hon, mae fersiwn ategol a ddatblygodd Barnardo's yn benodol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru. Y fframwaith 'Llety a Chefnogaeth Gadaelwyr Gofal'.
https://www.barnardos.org.uk/cym/16905_su_care_leavers_accom_and_support_framework_welsh_digital_3.pdf
- Ym mis Hydref 2018 cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) gomisiwn ymchwil Cymru i achosion ac atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys papur ymchwil penodol ar 'Digartrefedd ymhlith pobl ifanc a phobl sy'n gadael gofal: Mapio ymyriadau yng Nghymru'.
<https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/atal-digartrefedd-pobl-ifanc/>
- Mae gwaith ar y gweill i archwilio opsiynau llety priodol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae gan End Youth Homelessness Cymru, partneriaeth o bum sefydliad digartrefedd yng Nghymru, is-grŵp sy'n canolbwyntio ar gysylltiadau rhwng digartrefedd a'r system ofal sydd wedi datblygu cynigion a chamau gweithredu i'w datblygu.
- Mae Grŵp Tasg a Gorffen Dewisiadau Llety hefyd wedi'i sefydlu i archwilio'r ystod o opsiynau llety a chymorth presennol sydd ar gael ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal rhwng 16 a 24 oed a mapio digonolrwydd presennol y ddarpariaeth.